# SL(5)567 – Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir yr Hysbysiad hwn gan Weinidogion Cymru o dan adran 38(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020, a pharagraff 7 o Atodlen 17 iddi.

Mae'r Hysbysiad yn datgymhwyso darpariaethau amrywiol a gynhwysir mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r cwricwlwm yng Nghymru, yn ystod y cyfnod rhwng 24 Mehefin 2020 a 23 Gorffennaf 2020.

Mae'r Hysbysiad yn datgan y canlynol:

- Bydd datgymhwyso dros dro ofynion sy'n ymwneud â darparu'r cwricwlwm yn rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir a darparwyr addysg feithrin eraill a gyllidir i ymateb yn y ffordd fwyaf priodol i'r amgylchiadau sydd ohon[ynt] ac yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar anghenion plant, sef anghenion sy'n newid. Yn benodol, mae angen i ysgolion a darparwyr addysg feithrin allu canolbwyntio ar iechyd a lles plant.
- Bwriedir i lawer o'r Cwricwlwm Cenedlaethol gael ei ddarparu mewn ystafell ddosbarth gorfforol ac yn ôl amserlen lawn. Gall dysgu o bell fod mewn lle am beth amser ac ni chynlluniwyd y gofynion a osodir sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac asesu o dan adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 i'w bodloni o bell, naill ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol.
- Nid yw datgymhwyso gofynion sy'n ymwneud â'r cwricwlwm yn rhwystro ysgolion rhag cynnal asesiadau mewn ffordd sy'n briodol ac yn berthnasol i'w cyd-destun lleol ac i anghenion plant, a'r amharu ar eu haddysg ar hyn o bryd wedi effeithio'n wahanol ar lawer o'r plant hynny. Bydd hyn yn golygu bod angen dull mwy unigol o asesu a bydd datgymhwyso dros dro ofynion sy'n ymwneud â darparu'r cwricwlwm sylfaenol yn galluogi hynny.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7(v) mewn perthynas â'r Hysbysiad hwn:

**1. Deddf y Coronafeirws 2020 a'i gosod gerbron y Senedd**

Nodwn fod Deddf y Coronafeirws 2020 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso, dros dro, ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r cwricwlwm yng Nghymru.

Nodwn hefyd nad yw Deddf y Coronafeirws 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Hysbysiad gael ei osod gerbron y Senedd, ond bod yr Hysbysiad wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a bod Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg, wedi gwneud datganiad ysgrifenedig ynghylch yr Hysbysiad ar 23

Mehefin 2020, a ddosbarthwyd i’r holl Aelodau o'r Senedd ac sydd wedi ei **gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru**.

**2. Y cyfnod pan fo'r Hysbysiad yn gymwys**

O ddarllen yr Hysbysiad, i ni, mae'n ymddangos bod y datgymhwyso yn gymwys yn ystod y cyfnod rhwng 24 Mehefin 2020 a 23 Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, mae datganiad ysgrifenedig y Gweinidog Addysg yn dweud y bydd yr Hysbysiad yn gymwys “o 22 Mehefin hyd nes 21 Gorffennaf”.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**29 Mehefin 2020**